

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 4 Ionawr 2016
Tabled on 4 January 2016

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)
Public Health (Wales) Bill

Darren Millar

115

Page 38, after line 19, insert a new section –

[] Performing special procedure on intoxicated persons

- (1) An individual who performs a special procedure on someone else in the course of a business commits an offence if the individual knowingly performs the special procedure on someone whose awareness is impaired by intoxication.
- (2) A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
- (3) It is a defence for a person charged with an offence under this section to show that the person took reasonable precautions and exercised due diligence to avoid committing the offence.
- (4) In this section, “intoxication” means any intoxication, whether caused by drink, drugs, psychoactive substances or other means, or by a combination of means.’.

Tudalen 38, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Rhoi triniaeth arbennig i bersonau meddw

- (1) Mae unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig i berson arall yng nghwrs busnes yn cyflawni trosedd os yw'r unigolyn yn rhoi'r driniaeth arbennig, gan wybod ei fod yn gwneud hynny, i rywun y mae meddwdod yn amharu ar ei ymwybyddiaeth.
- (2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
- (3) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos i'r person gymryd rhagofalon rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.



- (4) Yn yr adran hon, ystyr "meddwdod" yw unrhyw feddwdod, ni waeth ai diodydd, cyffuriau, sylweddau seicoweithredol neu fodd arall neu gyfuniad o foddau sy'n gyfrifol am hyn.'

Darren Millar

116

Page 53, after line 37, insert a new section –

'[] Clear information as to location of public toilets

Where a local authority makes arrangements for the provision of toilets for use by the public, the local authority must make arrangements for the public to be informed clearly as to the location of those toilets.'

Tudalen 53, ar ôl llinell 38, mewnosoder adran newydd –

'[] Gwybodaeth glir o ran lleoliad toiledau cyhoeddus

Pan fo awdurdod lleol yn gwneud trefniadau ar gyfer darparu toiledau i'r cyhoedd eu defnyddio, rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau i hysbysu'r cyhoedd yn glir am lleoliad y toiledau hynny.'

